

# Enwebu Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mawrth 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid](http://www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddCyllid@cynulliad.cymru](mailto:SeneddCyllid@cynulliad.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Enwebu Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mawrth 2018



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10, 18.11, 19 a 20 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O dan Reolau Sefydlog 19 ac 20, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys ystyried unrhyw adroddiad neu ddogfen a osodir gerbron y Cynulliad yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau, neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd â gwaith craffu ar gyllideb y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog 18.10 ac 18.11, mae goruchwyllo llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodir yn Neddff Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw gynigion ar gyfer datganoli pwerau cyllidol i Gymru a chynnydd yn hyn o beth, fel rhan o'i gyfrifoldebau.

Gall y Pwyllgor hefyd graffu ar ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad.

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Simon Thomas AC**  
Plaid Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Neil Hamilton AC**  
UKIP Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Mike Hedges AC**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Abertawe



**Jane Hutt AC**  
Llafur Cymru  
Bro Morgannwg



**Steffan Lewis AC**  
Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Nick Ramsay AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Mynwy



**David Rees AC**  
Llafur Cymru  
Aberafan

---

# Cynnwys

<b>Rhagair y Cadeirydd.....</b>	<b>5</b>
<b>Casgliad.....</b>	<b>7</b>
<b>1. Y cefndir .....</b>	<b>8</b>
1. 1. Archwilydd Cyffredinol Cymru .....	8
1. 2. Manyleb y swydd a'r person.....	9
1. 3. Y broses recriwtio.....	10
<b>2. Yr ymgeisydd a ffefrir.....</b>	<b>12</b>
<b>Atodiad A: Hanes gyrfa – Adrian Crompton.....</b>	<b>13</b>
<b>Atodiad B: Ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru .....</b>	<b>15</b>



## Rhagair y Cadeirydd

Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru rôl hollbwysig yn sector cyhoeddus Cymru. Yr Archwilydd Cyffredinol yw ceidwad y pwrs cyhoeddus yng Nghymru, gan sicrhau bod sefydliadau'n gweithredu'n effeithlon wrth reoli arian y cyhoedd a bod ganddynt drefniadau gweithredu cadarn ar waith i sicrhau'r safonau uchaf o ran gonestrwydd a llywodraethu.

Mae Huw Vaughan Thomas, yr Archwilydd Cyffredinol presennol, wedi bod yn ei swydd am y 7 mlynedd diwethaf, ac wedi dweud ei fod yn bwriadu rhoi'r gorau i'w swydd ychydig yn gynnar, ym mis Gorffennaf 2018. Penodwyd Huw ar adeg anodd i Swyddfa Archwilio Cymru, ond mae wedi gweithio i wneud gwahaniaeth sylfaenol i'r diwylliant sefydliadol ac mae wedi gweithio i adfer hyder y cyhoedd yn Swyddfa Archwilio Cymru. Hoffwn ddiolch i Huw am ei gyfraniad yn ystod ei amser fel yr Archwilydd Cyffredinol.

Pan ddywedodd Huw ei fod yn bwriadu rhoi'r gorau i'w swydd, fe wnaethom gydnabod bod angen symud ar frys i recriwtio Archwilydd Cyffredinol newydd, gan gofio'r angen am broses a fyddai'n bodloni disgwyliadau dilys pobl Cymru o safbwynt cadernid a thryloywder. Mae hefyd yn hanfodol bod y broses yn cael ei chynnal mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes unrhyw awgrym o ymyrraeth wleidyddol. I'r perwyl hwn, fe wnaethom sicrhau bod dwy blaid yn cael eu cynrychioli ar y panel penodi ac fe wnaethom gynnal gwrandawriad cyn enwebu o'r Pwyllgor Cyllid trawsbleidiol.

Roedd Rheol Sefydlog 10.6 y Cynulliad yn ein galluogi i gymryd tystiolaeth gan yr ymgeisydd a ffefrir i weld a oedd y Pwyllgor yn cefnogi'r penodiad. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf bod gwrandawriad cyn enwebu yn sicrhau bod gwaith craffu agored a thryloyw yn cael ei wneud mewn perthynas â'r ymgeisydd sydd wedi'i nodi fel yr un mwyaf addas o'r broses recriwtio, gan roi hyder ychwanegol i'r Pwyllgor, a'r Cynulliad cyfan, fod yr ymgeisydd a ffefrir yn addas i'w enwebu ar gyfer penodiad gan y Goron.

Wrth gynnal y gwrandawriad hwn, roedd Aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i holi'r ymgeisydd am ei brofiad blaenorol a'i ddyheadau ar gyfer symud Swyddfa Archwilio Cymru yn ei blaen.

Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod yr ymgeisydd a ffefrir yn ymgeisydd addas ar gyfer y swydd hon, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda Mr Crompton yn y dyfodol.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Simon Thomas'.

Simon Thomas AC  
(Cadeirydd)



## Casgliad

### CASGLIAD

---

Ar 31 Ionawr 2018, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid wrandawriad cyn enwebu gydag Adrian Crompton, sef yr ymgeisydd yr oedd y panel cyfweld yn ei ffafrio ar gyfer swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod Mr Crompton yn ymgeisydd addas i'w enwebu ar gyfer penodiad gan Ei Mawrhydi fel Archwilydd Cyffredinol Cymru.

---

# 1. Y cefndir

## 1.1. Archwilydd Cyffredinol Cymru

1. Penodiad y Goron yw Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dilyn enwebiad gan y Cynulliad o dan Adran 2 o **Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013** (y Ddeddf). Mae Huw Vaughan Thomas, yr Archwilydd Cyffredinol presennol, wedi bod yn y swydd ers 1 Hydref 2010, a chyhoeddodd ei fwriad i roi'r gorau i'r swydd ar 20 Gorffennaf 2018.
2. Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru, a'r archwilydd yw Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru (er nad yn gyflogai). Corfforaeth undyn yw Swyddfa Archwilio Cymru.
3. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys bwrdd, sy'n cynnwys Cadeirydd Anweithredol, aelodau Anweithredol eraill, aelod a benodir o blith y gweithwyr cyflogedig a dau aelod etholedig o blith y gweithwyr cyflogedig. Mae'r Archwilydd hefyd yn aelod.
4. Fel y nodir yn y Ddeddf, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff eraill a archwilir, ac nid yw'n ddarostyngedig i'w cyfarwyddyd na'u rheolaeth.
5. Nodir prif swyddogaethau yr Archwilydd yn Neddffau Llywodraeth Cymru **1998** a **2006**, yn Neddffau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) **2004** a **2013**, yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** ac mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r cyrff a archwilir. Dyma'r swyddogaethau yn gryno:
  - Archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi, cyrff cyhoeddus anweinidogol Cymru, GIG Cymru a chyrff llywodraeth leol, a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
  - Archwilio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ('astudiaethau gwerth am arian') cyrff cyhoeddus Cymru a chyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r archwiliadau hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
  - Cynnal asesiadau gwella o gyrff llywodraeth leol ac arolygu'r cyrff hynny;
  - Archwilio a yw'r rhan fwyaf o brif gyrff cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a dilyn amcanion llesiant.

**6.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gweithio'n agos â Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad ac mae'n ofynnol iddo ystyried barn y Pwyllgor wrth benderfynu sut i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag astudiaethau gwerth am arian. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystyried adroddiadau cyfrifon a gwerth am arian y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn eu gosod gerbron y Cynulliad.

**7.** Mae gan y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) gyfrifoldebau goruchwyllo mewn perthynas â'r Archwilydd a Swyddfa Archwilio Cymru (wedi'u dirprwyo i'r Pwyllgor o dan Reolau Sefydlog 18.10 ac 18.11), felly disgwylir i'r Archwilydd ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid yn ôl y galw.

## 1. 2. Manyleb y swydd a'r person

**8.** Mae'r penodiad ar gyfer un cyfnod o wyth mlynedd yn y swydd na ellir ei adnewyddu, fel sy'n ofynnol gan adran 2 o'r Ddeddf.

**9.** Wrth ystyried recriwtio'r Archwilydd Cyffredinol, trafododd y Pwyllgor y trefniadau taliadau yn unol ag adran 7 o'r Ddeddf. Cytunodd y Pwyllgor i hysbysu'r swydd gyda chyflog o £142,000, ac fe'i haddasir yn unol â threfniadau ar gyfer gwaelod band tâl Ysgrifenyddion Parhaol, yn unol ag adroddiad blynyddol y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Bydd y Pwyllgor yn adolygu hyn ymhen 2 flynedd er mwyn asesu effeithiolrwydd y trefniant hwn.

**10.** Roedd y disgrifiad swydd yn nodi bod yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos ei fod wedi profi'r gallu i wneud y canlynol:

- cynnig arweinyddiaeth gref a dangos rheolaeth effeithiol ar sefydliad sector cyhoeddus proffil uchel;
- cynrychioli, dylanwadu a thrafod yn effeithiol ar lefel uwch er mwyn sicrhau bod ei rôl a'i sefydliad yn cael eu hystyried fel rhai credadwy, awdurdodol, atebol a thryloyw;
- mynegi barn dda ac arddangos cysondeb a chadernid wrth ymdrin â'r materion sensitif a phwysig a allai godi o archwiliadau;
- datblygu a chyfathrebu gweledigaeth, nodau ac amcanion strategol y sefydliad yn effeithiol;
- datblygu hygyrdd, atebolrwydd a thryloywder gwaith ei sefydliad, a hynny ochr yn ochr â Bwrdd;

- canolbwyntio ar wasanaeth hirdymor o ansawdd, gan gydbwysu gofynion sy'n aml yn gwrthdaro neu'n cystadlu â'i gilydd gan randdeiliaid allweddol; ac
- ennyn hyder fel Swyddog Cyfrifyddu.

**11.** Nododd manyleb y person hefyd y byddai angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos y rhinweddau canlynol:

- gosod gweledigaeth, gan feithrin ac ysbrydoli gwaith tîm i gyflawni'r weledigaeth honno;
- bod yn strategol a blaengar;
- meddu ar feddylfryd cadarnhaol a chymhelliant gydag effaith bersonol uchel;
- bod yn bwrpasol a chynhwysol;
- bod â'r gallu i addasu a newid fel arweinydd;
- grymuso, mynnu perfformiad uchel a chydabod llwyddiant;
- gallu cyfathrebu'n wych, a gallu meithrin teyrngarwch ac ymddiriedaeth; a
- bod yn hunanymwybodol, emosïynol ddeallus, a diplomyddol.

### 1.3. Y broses recriwtio

**12.** Hysbysebwyd y rôl ar 9 Hydref 2017 a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 8 Tachwedd 2017.

**13.** Er mwyn denu ymgeiswyr cryf ac amrywiol, hysbysebwyd y rôl gan ddefnyddio cyfuniad o brint caled, cyhoeddiadau electronig, cyfryngau cymdeithasol a chysylltiadau personol. Hysbysebwyd mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys:

- Gwefannau cyrff cyhoeddus perthnasol
- Hysbysebu priodol ar-lein (e.e. Guardian ar-lein, LinkedIn, Cyllid Cyhoeddus ar-lein a gwefan Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig).

- Hysbysebu copi caled yn y Financial Times (roedd hyn yn cynnwys negeseuon ar y wefan exec-appointments.com, ymgyrch wedi'i thargedu yn LinkedIn ac ymgyrch wedi'i thargedu ar Twitter).

**14.** Gwnaethpwyd gwaith hyrwyddo ychwanegol drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

**15.** Roedd y cyfnod ar gyfer gwneud cais ar agor am bedair wythnos, ac roedd gofyn i'r ymgeiswyr lenwi a chyflwyno ffurflen gais, holiadur gweithgaredd gwleidyddol a CV manwl. Daeth un ar ddeg o geisiadau i law gan ddwy fenyw a naw dyn.

**16.** Cynhaliwyd sifft rhagarweiniol ar ran y panel llawn ar 30 Tachwedd 2017. Yna cytunodd y panel ar restr fer o ymgeiswyr, a dewiswyd pump o'r un ar ddeg o ymgeiswyr i'w cyfweld. Dyma aelodau'r panel:

- Cadeirydd - Simon Thomas AC (Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid);
- Nick Ramsay AC (Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus);
- Isobel Garner (Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru); a
- Caroline Gardner (Archwilydd Cyffredinol yr Alban).

**17.** Yn ogystal, roedd Manon Antoniazzi (Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru) yn gynghorydd annibynnol i'r panel.

**18.** Rhoddwyd y cyfle i'r ymgeiswyr ar y rhestr fer drafod y swydd gyda'r Archwilydd Cyffredinol presennol cyn eu cyfweliad gyda'r panel dethol.

**19.** Cynhaliwyd y cyfweliadau ar 19 Ionawr 2018, a holwyd yr ymgeiswyr ar sail y meini prawf a nodwyd yn y disgrifiad swydd. Cynhaliwyd profion seicometrig a/neu brofion eraill cyn diwrnod y cyfweliad i feincnodi'r ymgeiswyr yn erbyn grwpiau o uwch gymheiriaid ac i ategu'r pecyn ehangach o asesiadau.

**20.** Gwnaeth y panel argymhelliad i'r Pwyllgor Cyllid ar ei ddewis ymgeisydd ar gyfer enwebu a chynhaliodd y Pwyllgor broses cyn enwebu, gan gynnwys gwrandawriad cyn enwebu gyda'r ymgeisydd a ffefrir, Adrian Crompton, ar 31 Ionawr 2018.

**21.** Yn unol ag Adran 2 (3) o'r Ddeddf, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (fel y corff sy'n cynrychioli buddiannau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru) cyn gwneud enwebiad ar gyfer penodi i'r Cynulliad. Mae ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'w weld yn atodiad B.

## 2. Yr ymgeisydd a ffefrir

**22.** Cafodd y Pwyllgor fanylion yr ymgeisydd a ffefrir, Adrian Crompton, ddydd Gwener 26 Ionawr 2018. Mae CV Mr Crompton ynghlwm yn atodiad A.

**23.** Cynhaliodd y Pwyllgor y gwrandawriad cyn enwebu gyda'r bwriad o ddeall cymhwysedd proffesiynol Mr Crompton, sut y mae'n bwriadu ymgymryd â'r rôl a pha brofiad ac arbenigedd sydd ganddo sy'n berthnasol i'r swydd.

**24.** Yn ystod y gwrandawriad, archwiliodd y Pwyllgor y meysydd a ganlyn gyda Mr Crompton:

- ei gefndir a'i brofiad proffesiynol,
- gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, a'i ddyheadau.

**25.** Gellir gweld trawsgrifiad o'r sesiwn dystiolaeth ar **dudalennau gwe y Pwyllgor Cyllid**.

### CASGLIAD

---

**Casgliad 1.** Ar 31 Ionawr 2018, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid wrandawriad cyn enwebu gydag Adrian Crompton, sef yr ymgeisydd yr oedd y panel cyfweld yn ei ffafrio ar gyfer swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod Mr Crompton yn ymgeisydd addas i'w enwebu ar gyfer penodiad gan Ei Mawrhydi fel Archwilydd Cyffredinol Cymru.

---

## Atodiad A: Hanes gyrfa – Adrian Crompton

### Mai 2007 hyd heddiw

#### Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

- arweinyddiaeth ar oddeutu 160 o aelodau o staff sy'n darparu'r cymorth ymchwil, cyfreithiol, gweithdrefnol, cyfathrebu a gweinyddu seneddol arbenigol y mae ei angen ar y Cynulliad;
- cyfrifoldeb personol dros sicrhau bod holl drafodion ffurfiol cyfarfodydd llawn a phwyllgorau'r Cynulliad yn cael eu cynnal mewn modd effeithiol;
- prif gynghorydd i'r Llywydd ynghylch y rhaglen diwygio deddfwriaethol i gynyddu maint y Cynulliad Cenedlaethol a diwygio ei system etholiadol yn sylfaenol;
- cyllideb adnoddau o oddeutu £7 miliwn;
- aelod o fyrddau gweithredol yn y sefydliad sy'n darparu arweinyddiaeth strategol, yn sicrhau llywodraethu da ac yn penderfynu ar ddyraniad strategol yr holl adnodd ariannol a phersonél;
- nifer o gyfrifoldebau corfforaethol: er enghraifft, ar hyn o bryd fel cadeirydd y brif fenter newid, sef rhaglen trawsnewid digidol *FySenedd*;
- uwch gynghorydd **Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**, sef y corff annibynnol sy'n pennu cyflog, pensiwn a chymorth ariannol Aelodau'r Cynulliad.

### Ebrill 2014 hyd heddiw

#### Aelod Cysylltiol o Global Partners Governance

Treuliodd 2014 yn gweithio i Global Partners Governance, cwmni pwrpas cymdeithasol sy'n cryfhau democratiaeth seneddol a sefydliadau gwleidyddol mewn gwledydd ledled y byd. Mae'r gwaith hwn yn parhau heddiw, ochr yn ochr â rôl yn y Cynulliad Cenedlaethol, gan ddarparu cyngor a chymorth arbenigol i uwch wleidyddion a gweision sifil, yn bennaf mewn gwledydd yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica – y Swdan, Irac, yr Aifft a'r Iorddonen. Yr arbenigedd a'r cymorth ymarferol hwn yw sail prosiectau sy'n meithrin pontio democrataidd mewn rhai o'r amgylcheddau gwleidyddol mwyaf anodd a heriol yn y byd.

## **Ebrill 2014 hyd heddiw**

Pennaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a'r Pwyllgorau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## **Mawrth 2004 - Awst 2006**

Pennaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## **Gorffennaf 1999 - Mawrth 2004**

Clerc Pwyllgor, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## **Hydref 2002 - Hydref 2003 (secondiad)**

Ymgynghorydd i Uned Gyfansoddiad Prifysgol Llundain

## **Chwefror 1998 - Gorffennaf 1999**

Ystadegydd y Llywodraeth, y Swyddfa Gymreig/Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## **Mai 1988 - Chwefror 1998**

Clerc Ymchwil, Is-adran Ymchwil Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

## **Rhagor o wybodaeth**

- Prifysgol Caerfaddon 1983-87. BSc Economeg, 2:1.
- Lleoliad diwydiannol gydag IBM 1985-86.
- 1997 – Cymrodoriaeth Ymddiriedolaeth Diwydiant a Senedd gyda Railtrack
- 2011 - 2017, aelod o fwrdd LINC Cymru, cwmni cymdeithasol gyfrifol yn darparu gwasanaethau tai cymdeithasol a gofal i'r henoed ar draws de Cymru.
- Aelod o **Grŵp Astudio'r Senedd**, sy'n dwyn ynghyd uwch staff seneddol ac academyddion sy'n astudio llywodraeth seneddol a gwyddor wleidyddol.
- Aelod o'r **Gymdeithas Astudiaethau Gwleidyddol**, sy'n hyrwyddo ymchwil ac ymgysylltiad gwleidyddol â gwleidyddion, academyddion, y cyfryngau a ffurfwyr barn allweddol eraill.



# Atodiad B: Ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Ein Cyf /Our Ref:

Eich Cyf /Your Ref:

Dyddiad /Date:

Gofynnwch am/Please ask for:

Llinell uniongyrchol/Direct line:

Ebost/Email:

ST/SS

22<sup>ain</sup> Chwefror 2018

Steve Thomas

029 2046 8610

steve.thomas@wlga.gov.uk



CLILC • WLGA

Simon Thomas AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

Annwyl Simon,

Diolch i chi am eich llythyr i nodi bod Adrian Crompton wedi'i benodi'n Archwilydd Cyffredinol newydd Cymru. Rydw i wedi cydweithio ag Adrian yn ei rôl bresennol, ac mae wedi creu argraff arna i fel rhywun hynod broffesiynol a galluog. Rwy'n siŵr y bydd yn datblygu rôl yr Archwilydd Cyffredinol yng Nghymru ac yn craffu ar y sector cyhoeddus yn gwbl ddiuedd. Bydd ei ddealltwriaeth o Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad o fudd i'r sefydliad hefyd.

Llywodraeth leol yw cleient mwyaf Swyddfa Archwilio Cymru o gryn dipyn ac rydym wedi gweithio'n agos gyda Huw Thomas dros y blynyddoedd. Dymunwn ymdddeoliad hapus iddo.

Gan mai ni yw'r cleient mwyaf, mae gennym bryderon hefyd ynghylch yr hyn y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn canolbwyntio arno ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae cynghorau yn credu yn gyffredinol nad yw llawer o'r astudiaethau cenedlaethol a gynhyrchir yn amserol nac yn arbennig o dreiddgar. Yn yr un modd, er bod y Swyddfa wedi gostwng ei ffioedd dros y blynyddoedd diwethaf, nid oes modd cymharu'r gostyngiadau hyn â'r toriadau ariannol y mae cynghorau wedi eu hwynebu. Gobeithio y bydd Adrian yn cydweithio ag WLGA a'r cynghorau ar y materion hyn wedi iddo ddechrau ei swydd newydd.

Gobeithio bod y sylwadau hyn o gymorth.

Yn gywir,

**Steve Thomas CBE**  
Chief Executive/Prif Weithredwr

Steve Thomas CBE  
Prif Weithredwr  
Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth  
Leol Cymru  
Tŷ Llywodraeth Leol  
Rhodfa Drake  
CAERDYDD CF10 4LG  
Ffôn: 029 2046 8600

Welsh Local Government  
Association  
Local Government House  
Drake Walk  
CARDIFF CF10 4LG  
Tel: 029 2046 8600

wlga.cymru  
wlga.wales

@WelshLGA

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.  
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**

**We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.  
Use of either language will not lead to a delay.**